Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Emrys Ap Iwan

**Rhodfa Faenol**
**Abergele**
**Conwy**
**LL22 7HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Emrys Ap Iwan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Emrys ap Iwan |
| Awdurdod lleol | Conwy |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 971 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 796 |
| Nifer yn y chweched dosbarth (os yw'n berthnasol) | 174 |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.7%)* | 29.1% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 21.7%*) | 32% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.2% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 08/10/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

**(a)** Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Emrys ap Iwan yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gael profiad o ddysgu o fewn y diwrnod ysgol a thu hwnt, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae ehangder y cynnig allgyrsiol, sef ‘engage@emrys’, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad diwylliannol disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y sesiynau ar ôl yr ysgol, gan gynnwys nifer dda o ddysgwyr difreintiedig. O ganlyniad i’r cyfleoedd hyn, dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn mwynhau dod i’r ysgol ac yn teimlo bod staff yn ofalgar ac yn dangos diddordeb yn eu lles. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud eu bod yn ymgysylltu â bywyd ysgol, ychydig iawn ohonynt yn unig sy’n cael cyfle i ymgymryd â rolau arwain.

Mae’r timau lles ac anghenion dysgu ychwanegol wedi rhoi darpariaeth a chymorth tra ystyriol a phersonoledig ar waith. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn gallu manteisio ar y cwricwlwm, er bod defnydd athrawon o gynlluniau addysg unigol yn amrywiol. Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion a’u teuluoedd yn dda.

Mae’r pennaeth a’r uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth ystyriol, gyda lefelau uchel o gymorth ar gyfer lles disgyblion, staff a theuluoedd, yn enwedig yn ystod cyfnod y pandemig. Mae’r ysgol hefyd wedi dechrau mynd i’r afael yn gadarn â heriau ariannol hirsefydledig. Er eu bod yn gweithio’n dda gyda’i gilydd, nid yw’r rolau a’r cyfrifoldebau ar draws yr uwch dîm yn deg, ac felly nid oes cydbwysedd digon da yn y baich gwaith. Yn gyffredinol, mae arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau yn briodol, er bod y cymorth gan eu rheolwyr llinell yn amrywiol. Mae arweinwyr yn dechrau casglu gwybodaeth am waith yr ysgol ar ôl y pandemig, er nad yw prosesau gwerthuso a gwella yn ddigon manwl gywir. Mae dysgu proffesiynol wedi cyfrannu at ofal, cymorth ac arweiniad cryf, ond nid yw wedi canolbwyntio’n ddigon agos ar ddatblygu arferion ystafell ddosbarth. O ganlyniad, er bod yr ysgol wedi ystyried agweddau pwysig, fel lles, ac wedi gweithredu yn unol â nhw, nid yw’r ysgol wedi blaenoriaethu meysydd allweddol fel datblygu addysgu ac asesu neu’r ddarpariaeth ar gyfer medrau disgyblion i gefnogi gwelliant. Yn gyffredinol, er bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn gwersi, nid yw adborth athrawon yn cael digon o effaith ar wella gwaith disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol, gan gynnwys y Gymraeg

A3 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel a gwella hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau. Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol ac yn gallu cymhwyso hyn i dasgau newydd, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio technegau llinell a thôn pensil i gwblhau darluniau o boteli.

Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Er enghraifft, mewn addysg grefyddol, maent yn ystyried â diddordeb effaith system Varda ar unigolion. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffygion mewn addysgu, ac yn benodol, diffyg her addas.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi. Maent yn darparu cyfraniadau bras pan fydd yr athro'n gofyn cwestiynau iddynt, ac yn cymryd rhan yn briodol mewn trafodaethau ystafell ddosbarth. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwaith grŵp. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn rhoi ymatebion estynedig pan gânt eu holi. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion ddigon o hyder ac maent yn aros yn oddefgar pan ofynnir iddynt rannu eu barn neu syniadau, neu'n cynnig ymatebion bras ac annatblygedig yn unig nad ydynt yn cael eu herio gan yr athro.

Mae mwyafrif y disgyblion yn brasddarllen testunau ar gyflymdra addas i amlygu gwybodaeth berthnasol ac yn bwrw golwg dros ddarnau hwy yn briodol i nodi themâu allweddol. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn llwyddiannus mewn ychydig o bynciau i grynhoi gwybodaeth, er enghraifft trwy leoli a dethol ffeithiau am gatalyddion. Mewn gwersi llythrennedd, mae disgyblion yr oedd eu cyrhaeddiad yn isel yn y gorffennol yn gwneud cynnydd da pan fyddant yn cael cymorth i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o hyder wrth ddarllen ar goedd, gan ynganu geirfa gymhleth yn gywir.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn strwythuro'u gwaith yn briodol ac yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddeg i ennyn diddordeb y darllenydd ac ymgysylltu ag ef. Mae'r disgyblion hyn yn ysgrifennu â chywirdeb ac yn defnyddio atalnodi'n gywir. Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn defnyddio geirfa amrywiol sy'n gynyddol gymhleth, er enghraifft wrth gyfiawnhau bodolaeth rhyfel. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadegol mynych. Mae gan ryw hanner y disgyblion lawysgrifen glir, ac maent yn hyderus wrth ysgrifennu'n estynedig.

Mewn mathemateg ac ychydig o bynciau perthnasol eraill, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhif cadarn. Er enghraifft, maent yn cyfrifo effeithlonrwydd dyfeisiau sy'n defnyddio trydan mewn gwyddoniaeth neu'n cyfrifo gwerth arian ar gyfer gwyliau gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid, er enghraifft punnoedd neu ddoleri, neu Ewros i bunnoedd. Ar draws ychydig o bynciau, yn enwedig gwyddoniaeth, mae mwyafrif o ddisgyblion yn llunio graffiau llinell priodol pan roddir y graddfeydd a'r echelinau iddynt, ac yn labelu'r echelinau yn briodol. Yn gyffredinol,

mae'r disgyblion hyn yn plotio pwyntiau ac yn tynnu llun llinellau sy'n ffitio orau gyda gofal addas. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o ddata mewn graffiau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol, maent yn dadansoddi ac yn dehongli effeithiau cynyddu nifer y sigaréts a ysmygir ar debygolrwydd datblygu canser yr ysgyfaint.

O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda, er enghraifft wrth newid genre cyfansoddiadau adnabyddus i greu eu fersiynau eu hunain trwy addasu tempo, dynameg, ansawdd a strwythur y gwreiddiol. Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau menter yn arloesol i ddylunio gŵyl newydd, sef 'GlastonGele', i fodloni gofynion deuol pobl leol a thwristiaid.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol trwy ystod gyfyng o dasgau digon syml. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio cefndiroedd a delweddau mewn sleidiau cyflwyno i roi gwybod i'w cyfoedion am gadernid digidol.

Mewn ychydig iawn o bynciau ar draws y cwricwlwm, ac yn ystod cyfnodau cofrestru, mae disgyblion yn defnyddio brawddegau syml ac ymadroddion allweddol sy'n benodol i bwnc yn Gymraeg yn briodol.

Yn y chweched dosbarth, mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn dangos cadernid pan fyddant yn wynebu cwestiynau heriol. Maent yn ymateb yn weithredol, er enghraifft wrth ddangos eu dealltwriaeth o amserau gwahanol y ferf mewn Almaeneg, a'u gallu i'w trin.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ystyried bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu am eu lles ac yn parchu eu barn. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gymorth lles, er enghraifft gan nyrs yr ysgol, cwnselydd a darparwyr allanol. Mae disgyblion yn hynod werthfawrogol o'r cymorth ar gyfer iechyd meddwl, yn benodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall buddion gwneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â diet a lles emosiynol. Maent yn hyderus yn eu galluoedd eu hunain i gadw'n ddiogel ar-lein ac yn teimlo'n wybodus o ganlyniad i'r cyfleoedd a gynigir trwy ddiwrnodau cyfoethogi. Maent yn ymgysylltu'n dda mewn sesiynau sy'n canolbwyntio ar e-ddiogelwch, seiberfwlio a chyfeillgarwch ar-lein. Yn ychwanegol, mae gwasanaethau blwyddyn gyfan yn canolbwyntio ar beryglon y cyfryngau cymdeithasol a secstio.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais a pharchus at eu cyfoedion, athrawon ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn briodol mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos gwydnwch wrth weithio'n annibynnol, a phan roddir her addas iddynt, dangosant ddycnwch a phenderfynoldeb. Mae'r disgyblion hyn yn ddysgwyr hyderus a medrus, sy'n barod i ddysgu. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn rhy oddefgar, ac mewn ychydig o wersi, nid ydynt yn ymddwyn yn dda. Pan fydd disgyblion yn ymgysylltu llai neu ddim yn cael eu herio'n

ddigonol, mae ansawdd eu gwaith yn wael. Nid yw'r disgyblion hyn yn dangos balchder yn eu gwaith.

Mewn gwersi, mae bron pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, gan ddal ati i ganolbwyntio drwyddi draw. Maent yn mynd ati i gymryd rhan mewn trafodaeth dosbarth cyfan ac yn barod i gynnig eu syniadau a'u cwestiynau eu hunain.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth ddatblygedig o systemau gwobrau a chosbau'r ysgol. Caiff disgyblion eu cymell gan y system wobrau, sy'n eu hannog i wella'u presenoldeb, prydlondeb, ymgysylltiad, a chynnydd. Fe wnaeth mentrau '12 diwrnod Nadolig' ac 'Eggcellent', sy'n rhoi gwobrau i ddisgyblion, hybu ymgysylltiad â disgyblion ar adegau pan fyddai ymgysylltiad yn pylu yn y gorffennol.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfleoedd arwain yn Ysgol Emrys ap Iwan. Mae'r cyngor ysgol wedi cynllunio gwelliannau i amgylchedd yr ysgol, fel sicrhau meinciau yn yr awyr agored i gefnogi lles disgyblion, codi arian ar gyfer elusennau a chyfrannu at bolisi gwrthfwlio'r ysgol. Mae'r disgyblion prin a etholwyd yn ddemocrataidd yn cyflawni eu rolau â brwdfrydedd ac aeddfedrwydd, ac yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Er gwaethaf hyn, caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu eu medrau arwain, ar y cyfan.

Mae disgyblion yn mwynhau ystod eang o glybiau allgyrsiol a gofal cofleidiol a ddarperir trwy raglen gynhwysol 'engage@emrys'. Mae cyfraddau cyfranogi yn uchel ar draws yr holl grwpiau disgyblion mewn ystod eang o glybiau allgyrsiol fel dawns, crochenwaith a gemau bwrdd. Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus, yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 8 a Blwyddyn 9 hefyd yn mynychu wythnosau gweithgareddau allanol yn Aberdyfi. Caiff disgyblion y chweched dosbarth gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain wrth gynorthwyo staff ar y teithiau.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o lwybrau i ennyn diddordeb disgyblion a darparu ar gyfer pob gallu ar draws y cwricwlwm. Yn y chweched dosbarth, mae cydweithio â darparwyr lleol eraill yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar gyfres helaeth o gymwysterau ar lefel 2 a lefel 3. Er enghraifft, mae'r cyrsiau Technegau Therapi Harddwch a Thrin Gwallt Menywod yn darparu'n briodol ar gyfer anghenion dysgwyr unigol. Yn yr un modd, yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn gwneud dewisiadau o blith set eang a chytbwys sy'n cynnwys cyrsiau mewn Gofal Anifeiliaid, er enghraifft.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod ystod addas o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a lles, gofodau 'Mynediad' a 'Chynhwysiant', yn rhoi cyfleoedd digonol i ddisgyblion elwa ar gwricwlwm wedi'i addasu ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth

ychwanegol. Rhoddir arweiniad gwerthfawr hefyd i ddisgyblion wneud dewisiadau synhwyrol ynghylch gyrfaoedd. Mae defnydd pwrpasol o ddarparwyr allanol o fewn diwrnodau cyfoethogi yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o ystod o alwedigaethau. Mae’r diwrnodau gwerth chweil hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, rhoddodd banc lleol gymorth i ddisgyblion â rheoli eu cyllid, a siaradodd newyddiadurwr o’r BBC â disgyblion am y modd y mae hi wedi goresgyn heriau i gyflawni ei huchelgais i weithio yn y cyfryngau. Mae’r ysgol yn effeithiol o ran darparu mwy o gyfleoedd cyfoethogi priodol a phoblogaidd trwy ei rhaglen ‘engage@emrys’. Un o’r cryfderau penodol yw ymgysylltiad dysgwyr difreintiedig â’r ystod helaeth hon o weithgareddau.

Mae’r weledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn glir, ac mae cynllunio priodol ar waith i ymgorffori’r weledigaeth hon yn llawn ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw’r cwricwlwm ehangach yn rhoi cefnogaeth ddigonol i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol. Mae’r rhaglen lythrennedd ar gyfer disgyblion â chyrhaeddiad isel ym Mlynyddoedd 7 ac 8, sef “Building Reading Power”, yn darparu cymorth cynhwysfawr a theilwredig ar gyfer dysgwyr unigol. Yn y gwersi llythrennedd hyn, mae disgyblion yn dangos mwy o hyder yn eu rhugldér darllen ac mewn ysgrifennu’n fwy cywir. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd ystyrlon i wella ar fedrau llythrennedd a rhifedd ym meysydd y cwricwlwm heblaw Saesneg a mathemateg wedi’u datblygu’n ddigonol. Nid yw dylunio a chynllunio’r cwricwlwm, yn barod ar gyfer 2023, yn canolbwyntio’n ddigonol ar gynnydd dysgwyr mewn medrau o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad. Megis dechrau cael eu datblygu y mae cynlluniau i ddatblygu a hybu medrau cymhwysedd digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm, ac nid ydynt yn rhoi ffocws digonol i arfer addysgu a dysgu effeithiol. Hefyd, nid yw graddau ac ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion ymarfer medrau Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol wedi’u datblygu’n ddigonol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda ac yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda’u disgyblion. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o derminoleg pwnc ac maent yn fodelau rôl iaith da. Maent yn mabwysiadu strategaethau rheoli ystafell ddosbarth addas ac yn creu amgylchedd dysgu priodol.

Mae llawer o athrawon yn darparu cyfarwyddiadau ac esboniadau clir i gefnogi cynnydd disgyblion yn briodol. Maent yn cynllunio’u gwersi â gofal ac yn paratoi gweithgareddau a strategaethau addysgu addas sy’n ymgysylltu â llawer o ddisgyblion yn dda. Er enghraifft, mae athrawon mewn gwersi addysg gorfforol yn gosod cylched o weithgareddau, gan gynnwys bocsio, cryfder a chyflyru, a sbin. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod addas o gwestiynau i wirio gallu disgyblion i alw i gof. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, nid yw holi yn procio a datblygu dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth rheolaidd a phriodol, at ei gilydd, ond nid yw hyn bob amser yn helpu disgyblion i wneud cynnydd addas yn eu gwaith. Maent hefyd yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth gadarnhaol i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu’n dda mewn gwersi.

Mewn ychydig iawn o achosion, lle mae’r addysgu’n fwy effeithiol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn rhoi her gadarn i’r dysgwyr ac yn sicrhau bod gwaith yn gweddu’n dda i gyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Trwy dechnegau holi cryf, maent yn archwilio dealltwriaeth ac yn datblygu

gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion. Er enghraifft, mewn hanes, fe wnaeth cwestiynu gan yr athro archwilio a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ynglŷn â'r uchelgais y tu ôl i greu “tir sy'n addas i arwyr”. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu hyder a'u gwydnwch hefyd. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn y chweched dosbarth yn adlewyrchu'r cryfderau hyn hefyd.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion mewn addysgu, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol. Yn y gwersi hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion eu herio'n briodol. Nid yw modelu athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn glir ynglŷn â'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Yn gyffredinol, mae athrawon yn gor-strwythuro sesiynau ac mae hyn yn rhwystro gallu disgyblion i fod yn annibynnol a chreadigol yn eu dysgu. At ei gilydd, nid yw'r gwersi hyn yn darparu cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau ymgysylltiad disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau gwael o ymddygiad a strategaethau aneffeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad. O ganlyniad, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn colli ffocws ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth addas ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar ddarnau penodol o waith disgyblion. Mae amrywiad yn ansawdd yr adborth o fewn pynciau, ac ar eu traws. Mae'r sylwadau'n tueddu i fod yn rhy hael ac nid ydynt yn rhoi digon o fanylion ar sut i wella. Mae ymateb y disgyblion i adborth athrawon yn amrywiol ac anghyson.

Mae gan yr ysgol system olrhain gref a chynhwysfawr sy'n nodi disgyblion sy'n tangyflawni yn fedrus. Mae adrannau unigol wedi datblygu eu systemau cyfochrog eu hunain hefyd i nodi cryfderau disgyblion a meysydd i'w gwella. Defnyddir y wybodaeth hon i ddarparu targedau a chymorth addas ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o safonau medrau disgyblion i gynllunio ar gyfer dilyniant. Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn darparu gwybodaeth briodol am gynnydd disgyblion ac yn nodi targedau addas ar gyfer gwella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r tîm lles yn darparu ystod gynhwysfawr o gymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anghenion. Ategir y gwaith hwn gan genhadaeth gref i sicrhau ymgysylltiad cyson ag addysg brif ffrwd gan y disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol brosesau diffiniedig ar gyfer annog presenoldeb ac ymddygiad da, ac ar gyfer cefnogi anghenion lles disgyblion bregus. Defnyddir data yn dda mewn cyfarfodydd bugeiliol wythnosol. Mae'r tîm yn ystyried presenoldeb ac ymddygiad pob disgybl mewn ffordd gyfannol yn sgil unrhyw anghenion cymdeithasol, emosiynol ac addysgol i nodi camau gweithredu a chymorth perthnasol. Caiff y disgyblion hyn eu monitro'n ofalus, ac mae ymateb graddedig tra ystyriol yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu o'r newydd â dysgu. Er enghraifft, mae'r staff yn yr 'Ystafell Ofalu' ('Cherish'), yn cynorthwyo niferoedd bach y dysgwyr sy'n defnyddio'r ddarpariaeth ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion emosiynol yn dda. Pan fydd angen, gwneir

addasiadau priodol i'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion disgyblion a sicrhau eu hymgysylltiad parhaus â phrofiadau addysgol gwerth chweil yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod eang o asiantaethau a darparwyr i gefnogi gwaith y tîm lles. Er enghraifft, yn y ganolfan deuluol, gall disgyblion a'u teuluoedd fanteisio ar gymorth ehangach. Mae'r "Sied Ieuenctid" yn darparu profiadau dysgu creadigol a dilys i ddisgyblion ddatblygu hunan-barch a gwydnwch. Mae nyrs yr ysgol ac ardal y cyfryngau yn darparu cymorth cynhwysfawr o ran cymorth cyntaf, iechyd meddwl ac iechyd rhywiol ar gyfer dysgwyr.

Trwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a diwrnodau cyfoethogi, mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a pherthnasoedd diogel yn briodol. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd parch, empathi a thosturi yn effeithiol, yn ogystal ag archwilio gwahanol gredoau ysbrydol a moesegol.

Caiff disgyblion ystod addas o gyfleoedd i ddatblygu eu dychymyg, medrau corfforol a chreadigol trwy eu hastudiaethau, gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o glybiau chwaraeon, yn ogystal â chôr, gweithgareddau drama, ac ymweliadau addysgol gwerthfawr â theatrau. Mae'n defnyddio cyllid grant yn bwrpasol i sicrhau bod disgyblion difreintiedig yn elwa ar y cyfleoedd hyn.

Darparodd y cyngor ysgol fewnbwn gwerthfawr i bolisi gwrthfwlio'r ysgol i wella ffyrdd y gall disgyblion adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, ac mae'r ysgol yn delio'n sensitif ac yn effeithiol â'r digwyddiadau prin iawn sy'n codi. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn archwilio'i darpariaeth ddiogelu yn briodol i nodi bylchau. Er bod y wybodaeth o systemau monitro ac olrhain yr ysgol yn cael ei defnyddio'n dda i deilwra ymyriadau, ni chaiff ei defnyddio'n ddigon cynhwysfawr i sicrhau gwelliannau i ddarpariaeth. Mae staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant buddiol ar strategaethau is-gyfeirio ac ar gymorth i ddisgyblion sy'n dioddef trawma a gorbryder ar ôl y cyfnod clo. Mae gan rai aelodau staff arbenigedd gwerthfawr mewn ymagweddau adferol, ond ni chaiff hyn ei rannu a'i ddefnyddio'n eang.

Ar y cyfan, mae adeiladau'r ysgol yn darparu gofod diogel a saff ar gyfer dysgwyr. Mae systemau cryf ar waith ar gyfer cyfeirio a chefnogi plant mewn angen neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol, a'r disgyblion hynny sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae staff wedi cael yr hyfforddiant priodol ac yn deall eu dyletswyddau diogelu'n dda, ar y cyfan. Yn ychwanegol, daethpwyd ag ychydig o faterion iechyd a diogelwch i sylw'r ysgol.

Mae darpariaeth 'Mynediad' ('Access') yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol yn cael ystod eang o gymorth ac ymyriadau gwerthfawr. Yn 'Mynediad', mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu ystod eang o fedrau neu gael cymorth teilwredig ar gyfer anhwylder y sbectrwm awtistig (ASD), gorbryder ac anghenion dysgu. Er enghraifft, mae 'Y Parth' ('The Zone') yn ofod diogel lle caiff niferoedd bach o ddysgwyr ASD eu cynorthwyo'n effeithiol i ailintegreiddio mewn gwersi prif ffrwd.

Mae disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol yn yr adnodd arbenigol yn cael profiadau tebyg i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol eraill. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r disgyblion hyn yn llwyddiannus i fynychu gwersi prif ffrwd gyda'u cyfoedion am ran o'r wythnos ysgol. Nod y strategaeth effeithiol hon yw sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol yn deg i'r rhai heb anawsterau tra'n cael ymyriadau perthnasol i gefnogi eu hanghenion.

At ei gilydd, ar draws yr ardaloedd dynodedig amrywiol, mae'r ysgol yn darparu hyb gwerthfawr i ddysgwyr bregus gyfarfod a chymdeithasu yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Gall disgyblion ddewis cael amser tawel neu ddatblygu cyfeillgarwch trwy ystod o weithgareddau a gefnogir gan staff.

Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol broffiliau un dudalen defnyddiol sy'n esbonio sut hoffent gael eu cynorthwyo, ac maent yn cyfrannu'n ystyrlon at y broses hon. Mae cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn darparu strategaethau priodol i'w defnyddio yn y dosbarth gyda meini prawf llwyddiant tymor hir. Fodd bynnag, nid yw CAUau yn cynnwys targedau tymor byr. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar eu defnyddioldeb o ran helpu staff i nodi'r strategaethau addysgu a dysgu mwyaf priodol. Nid yw athrawon yn defnyddio CAUau yn ddigon da i lywio eu haddysgu. Er bod gan yr ysgol system olrhain ddefnyddiol i fonitro'n briodol y cynnydd academaidd a wneir gan ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ni ddefnyddir y gweithgareddau monitro hyn yn ddigon da i ymestyn darpariaeth ymhellach neu nodi anghenion dysgu proffesiynol. Mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau blynyddol yn ddigon trylwyr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei phenodi ym mis Medi 2020, mae'r pennaeth wedi darparu arweinyddiaeth gadarn ac wedi sicrhau y bu'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol yn ystod cyfnod heriol pandemig COVID-19. Cynorthwyodd yr uwch dîm arweinyddiaeth y pennaeth yn briodol wrth ymateb i'r pandemig, a chanolbwyntiodd ar sicrhau bod disgyblion yn cael y deilliannau gorau wrth iddynt adael yr ysgol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir fod pob disgybl yn Ysgol Emrys ap Iwan yn cael cyfleoedd cyfartal i gyflawni ei lawn botensial. Adlewyrchir hyn yn eu harwyddair, sef, 'Her i gyflawni' ('Dare to achieve'), sy'n cael ei gyfleu'n rheolaidd i staff, disgyblion a rhieni, ac yn treiddio'n briodol trwy waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar les disgyblion. Yn ystod y cyfnodau clo, roeddent yn cyfathrebu'n rheolaidd â disgyblion i wirio eu lles ac yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn briodol, er enghraifft trwy ddarparu parseli bwyd ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus. Rhoddodd arweinwyr flaenoriaeth i les staff hefyd, ac maent wedi bod yn hyblyg pan roedd angen i staff weithio o gartref, hyd yn oed ar ôl i'r rhan fwyaf o ddarparwyr ddychwelyd i fywyd ysgol mwy arferol. Mae uwch arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r cydbwysedd rhwng baich gwaith a dwyn staff i gyfrif am eu gwaith a chefnogi eu lles. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae arweinyddiaeth ar bob lefel wedi sicrhau gwelliannau mewn ychydig o feysydd gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer cynnwys disgyblion a darparu profiadau allgyrsiol newydd.

Er bod rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi'u diffinio a'u dosbarthu'n addas, ar y cyfan, nid ydynt wedi'u pwysoli'n briodol. Mae hyn yn golygu bod grŵp bach o

arweinwyr yn ysgwyddo cyfrifoldebau sylweddol, sy'n creu heriau o ran cynnal ansawdd a gyrru mwy o welliannau. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn deall eu rolau i gynorthwyo disgyblion a gofalu amdanynt, ac yn darparu profiadau dysgu gwerth chweil. Mae strwythurau addas ar waith ar gyfer rheolwyr llinell. Mae cyfarfodydd "her a chymorth" priodol yn galluogi uwch arweinwyr i asesu cynnydd adrannau mewn gwella perfformiad a sicrhau atebolrwydd am weithredoedd. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn dwyn y rhai maent yn eu rheoli i gyfrif yn dda trwy gyfarfodydd adrannol rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae uwch arweinwyr yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif yn amrywio, ac felly nid yw'n sicrhau gwelliant ar yr un cyflymdra.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn meithrin perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae'r pennaeth yn anfon llythyrau rheolaidd gyda diweddariadau ar arweiniad a gweithdrefnau i rieni. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau disgyblion yn dda, er enghraifft trwy gylchlythyr ar wefan yr ysgol a phostiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn rhoi sylw priodol i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol yn paratoi ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru trwy weithgareddau cynllunio a threialu cynnar. Hefyd, maent wedi canolbwyntio ar ddiogelu disgyblion a staff trwy weithio gydag asiantaethau, gan roi gwybod i staff am anghenion disgyblion a'u cyfrifoldeb am ddiogelu.

Mae arweinwyr wedi lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, yn rhannol trwy addasu darpariaeth. Mae hyn yn cynnwys defnyddio swyddog presenoldeb, nyrs ysgol a chwnselwyr, yn ogystal â datblygu'r ganolfan gynhwysiant a defnyddio'r ganolfan deuluol. Mae 'engage@ emrys' yn sicrhau bod disgyblion bregus yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored drud, fel dringo, marchogaeth a chwaraeon dŵr.

Yn y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrech i annog disgyblion i ymgysylltu'n fwy â'r Gymraeg yn eu gwersi a gwella deilliannau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn ddigon da, ac nid ydynt yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol y tu allan i'r adran Gymraeg.

Er bod athrawon unigol yn cynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau disgyblion yn eu gwersi, nid yw arweinyddiaeth i gynllunio ar gyfer cynnydd ym medrau disgyblion yn ddigon cryf. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon clir o'r hyn y gall disgyblion ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei ddatblygu.

Yn gyffredinol, mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol tra'n darparu her ddigonol wedi'i seilio ar y wybodaeth y maent yn ei chael. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud hyn trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau cyfoethogi.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gwella'n araf gyda chynllunio a rheolaeth gadarn. Mae gan yr ysgol ddyled tymor hir sy'n lleihau'n raddol. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae'r ysgol wedi gosod cyllideb gytbwys trwy ddefnyddio'r rhan fwyaf

o'r hyn sydd dros ben o 2020-21. Mae'n gwneud defnydd pwrpasol o grantiau, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, i gefnogi lles disgyblion.

Ceir trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff. Caiff cynnydd yn erbyn amcanion ei fesur yn erbyn meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar yr effaith ar ddysgu a lles disgyblion. Mae dysgu proffesiynol wedi'i gysylltu'n addas ag amcanion rheoli perfformiad, ond nid yw bob amser yn diwallu anghenion unigol athrawon ac arweinwyr.

Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o wella addysgu ac asesu. Mae'n cynnig ystod briodol o hyfforddiant ar gyfer staff, yn cynnwys cyfleoedd i fynychu cyrsiau gan ddarparwyr allanol a chyfrannu at rwydweithiau. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu eu medrau arwain trwy gymorth mewnol ac ychydig o gyfleoedd allanol. Er enghraifft, mae staff wedi gweithio gyda'i gilydd ac wedi ymweld ag ysgolion eraill wrth ystyried blaenoriaethau fel y Cwricwlwm i Gymru.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau priodol ar gyfer hunanwerthuso a sicrhau ansawdd. Mae gweithgareddau wedi ailddechrau yn raddol ar ôl y pandemig ac yn cynnwys casgliad o dystiolaeth uniongyrchol trwy deithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae llawer o arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio'r prosesau hyn yn addas i nodi'r prif gryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu. Nid yw arweinwyr bob amser yn ystyried effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd yn ddigon da. Hefyd, maent yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar y data a gynhyrchwyd yn fewnol i werthuso dysgu.

Mae llywodraethwyr a staff yn meddu ar ymwybyddiaeth briodol o flaenoriaethau'r ysgol. Yn gyffredinol, mae cynlluniau gwella yn cynnwys blaenoriaethau addas wedi'u seilio ar werthusiad o waith yr ysgol. Mae cynllun gwella'r ysgol yn cynnwys nifer fawr o flaenoriaethau y dewiswyd mynd i'r afael ag ychydig ohonynt yn y cynllun gweithredu. Caiff cynnydd yn erbyn blaenoriaethau ei werthuso'n briodol ac mae'r ysgol yn addasu ei hymagweddau yn unol â hynny. Yn gyffredinol, wrth gynllunio ar gyfer gwella, nid yw camau gweithredu'n dangos sut bydd yr ysgol yn ysgogi gwelliant yn ddigon manwl. Nid yw meini prawf llwyddiant bob amser yn ddigon mesuradwy na phenodol i ddwyn pobl eraill i gyfrif. Nid yw'r cylch hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon cydlynol ar lefel ysgol gyfan. At ei gilydd, nid yw arweinwyr wedi sicrhau digon o effaith trwy brosesau gwella.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  13/07/2022